

**COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWDYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, Ffordd RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 19<sup>EG</sup> HYDREF 2015 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Maer y Dref, Y Cynghorydd Dr S. Roy, (Cadeirydd)  
Y Cynghorwyr W. Bagnall, J. Davies, R. Foreman, D. Griffiths, Mrs L. Griffiths, Mrs M. Jones, A Khan; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; C Perry; Mrs V Perry; P Richards; Mrs V Smith; S Taylor; C Wood MBE; S Williams

**SWYDDOG:** Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

**HEFYD YN BRESENNOL:** Ms A. Dyke, Ysgrifennydd,  
Mr M. Pavey, Swyddog â Phrif Gyfrifoldeb a  
Ms H. Walker, Cadeirydd Dros Dro, Ymddiriedolaeth  
Pier Fictoria Colwyn (YPFC)

**197/15 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr N. Bastow, Mrs L Edwards, C Hughes a G Ward.

**198/15 Cyhoeddiadau'r Maer:**

Nid oedd gan y Maer unrhyw gyhoeddiadau.

**199/15 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau.

Datganodd y Cynghorydd A. Khan gysylltiad nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 4 ar yr agenda fel un o'r cynrychiolwyr a benodwyd gan y Cyngor Tref i Grŵp Llywio'r Pier.

**200/15 Ymwelwyr â'r Cyngor:**

- a. Croesawyd cynrychiolwyr Ymddiriedolaeth Pier Fictoria Colwyn (YPFC), i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, er mwyn iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am Strwythur y Bwrdd newydd a'r hyn a wnaed gyda'r cais diwygiedig i HLF.

Diolchodd Ms Dyke i'r Cyngor am y gwahoddiad i gael cyflwyno adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf i'r cyfarfod. Yna cyflwynodd ei chydweithwyr o'r Ymddiriedolaeth a dangosodd logo newydd yr Ymddiriedolaeth a fydd yn cael ei ddefnyddio gyda deunydd marchnata. Mae'r Ymddiriedolaeth yn hyderus y gellir cyflwyno prosiect i achub y Pier ac mae gan yr ymgyrch dros 2,500 o ddilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd ac mae gan yr Ymddiriedolaeth oddeutu 1,500 o aelodau. Erbyn hyn mae gan yr Ymddiriedolaeth siop leol sy'n agored o 10am tan 4pm o ddydd Llun i ddydd Gwener i gysylltu â'r cyhoedd ac i annog cyfraniadau tuag at yr achos. Cafodd y Bwrdd Cyfarwyddwyr ei gryfhau'n ddiweddar a chafodd y swyddogaethau unigol a'r strwythurau adrodd eu mireinio. Mae safle gwag yn bodoli am Gadeirydd newydd gydag arbenigedd masnachol priodol i helpu i symud y prosiect ymlaen. Mae copi o'r

sleidiau sy'n rhoi manylion am aelodau newydd y Bwrdd yn ogystal â throsolwg o'r ceisiadau blaenorol a chyfredol ar gael i'w gweld yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.

Yna cyflwynwyd Mark Pavey, Swyddog â Phrif Gyfrifoldeb newydd yr Ymddiriedolaeth i'r Aelodau, a Mark aeth trwy weddill y cyflwyniad gan ymdrin â gwybodaeth gefndirol am y ddau gais mwyaf diweddar a'r ffocws ar y cais newydd . Bydd hwn yn ymwneud a threftadaeth, cadwraeth, celfyddyd greadigol, a diwylliant cymdeithasol gan ddefnyddio adfywiad fel y llwybr troed i wella llesiant, ffyniant a phrofiad pobl o fywyd ym Mae Colwyn. Cafwyd neges glir gan yr HLF bod angen i'r Ymddiriedolaeth datblygu ei berthynas a'r Cyngor Sir ac roedd yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen mwy o amser i weithio'n agosach gyda'r Cyngor Sir efo unrhyw gais newydd. Fe benderfynwyd felly, i oedi cyn ailgyflwyno cais diwygiedig i HLF tan Dachwedd 2016. Yr her fwyaf i'r Ymddiriedolaeth bydd i argyhoeddi'r Cyngor Sir y gallai Pier a ailddatblygwyd dod a buddiannau nid yn unig i gymuned Bae Colwyn ond i'r Sir yn gyfan gwbl. Nod y cais bydd i ddangos ei bod yn bosibl i Fenter Gymdeithasol / Mudiad o'r Trydydd Sector cyflwyno prosiect a fyddai'n creu digon dros ben wrth symud ymlaen i gynnal y strwythur a'r gwasanaethau a ddarperir ar gyfer yr hirdymor. Fe ddynodwyd ym Mhrif Gynllun Bae Colwyn yr angen am 'ganolfan Celfyddyd Gymunedol' ac mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn y gellir cymhwyso'r angen yma fel rhan o'r Pier a ailddatblygwyd. Yn dilyn cyngor pellach gan HLF, mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried cais llai sef 'Ein Treftadaeth' i weithio ar brosiect ar y cyd megis 'atgofion' a fyddai'n fodd dichonadwy i wella'r perthnasedd gwaith rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor Sir.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb gan yr Aelodau ac fe godwyd y materion / pryderon canlynol: amheuan a fyddai digon o warged ar gyfer costau cynnal a chadw / trwsio yn yr hirdymor; pwysigrwydd 'y cam datblygu' i brofi'r cynllun busnes; beth fyddai'n digwydd pe bai'r cynllun busnes yn methu; yr angen am realaeth mewn cyferbyniad ag optimistiaeth neu besimistiaeth; yr angen am fenter; y costau (anhysbys) o ddymchwel a sut gellir cyllido hyn; yr angen i gymysgu'r hen a'r cyfoes; problemau a ragwelir efo parcio; dyletswydd yr Awdurdod Lleol i ddiogelu Strwythurau Cofrestredig; sylwadau pobl leol; canlyniadau arolwg YPFC.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Cyngor Tref eisoes wedi penderfynu cefnogi'r Ymddiriedolaeth yn ei chais diwygiedig i geisio goresgyn cam un (cyllid HLF) hyd at y cam datblygu, i weld a yw'n bosibl / dichonadwy i achub y Pier. Nid yw'r mater hwn yn agored i'w drafod heddiw.

Gofynnwyd i Mark pa gymorth arall, os o gwbl, oedd ei angen gan y Cyngor Tref ar hyn o bryd. Dywedodd wrth yr Aelodau yr hoffai'r Ymddiriedolaeth cael y dewis i arallgyfeirio rhan o'r £2,500 a gymeradwywyd eisoes gan y Cyngor Tref ym Medi (tuag at ffioedd Jess Steele) i fynd tuag at ran o'r costau o gyflogi cefnogaeth broffesiynol ychwanegol ganddo ef ei hun, Rob Chambers (Penseiri

Purcell) ag Ian Parkin (Ymgynghorydd), a fu'n gysylltiedig â chais llwyddiannus CBS Conwy i HLF. Gofynnod hefyd a fyddai'n bosibl i gael hyd at £2,500 ychwanegol i helpu gyda'r costau hyn (cafodd y cais hwn ei anfon ymlaen i'r Aelodau gydag agenda'r cyfarfod). Dywedodd mai Jess Steele oedd wedi argymhell yr Ymddiriedolaeth i geisio penodi Swyddog â Phrif Gyfrifoldeb i helpu i symud y gwaith ymlaen ag efo cysylltiadau ar lefel lleol.

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bod y Cyngor, yn y lle cyntaf, wedi dyrannu £30,000 tuag at brosiect y Pier: cafodd £10,000 ei wario ar y gefnogaeth wreiddiol gan Jess Steele ac fe glustnodwyd yr £20,000 sy'n weddill yng nghyllideb eleni tuag at y cam datblygu. Heb gais llwyddiannus, ni fydd cam datblygu. Pe hoffai'r Cyngor dyrannu £2,500 arall tuag at y gwaith angenrheidiol i gyflwyno cais diwygiedig i HLF yn 2016, fe ellir cymryd hwn allan o gyllideb eleni (yn ychwanegol i'r £2,500 a gymeradwywyd ym Medi). Byddai hyn yn gadael swm o £15,000 tuag at unrhyw gam i ddatblygu yn y dyfodol.

Yna dangosodd Ms Dyke, clip fideo byr i'r aelodau o'r '76 o gledrau' cyn iddi gwblhau'r cyflwyniad.

Diolchwyd i aelodau'r Ymddiriedolaeth am y cyflwyniad addysgiadol ac fe wahoddwyd iddynt aros yn y cyfarfod, fel arsyllwyr, am weddill y cyfarfod.

- b. Cyflwynodd y Clerc copi o nodiadau cyfarfod diweddar rhwng Aelodau Bwrdd YPFC, cynrychiolwyr o'r Cyngor Tref a chynrychiolwyr o GBS Conwy, er gwybodaeth.
- c. Yna gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ceisiadau'r Ymddiriedolaeth a gyflwynwyd gyda'r agenda ac a amlinellwyd uchod.

#### ***Penderfynwyd***

- i Rhoi disgrisiwn i'r Ymddiriedolaeth ailddyrannu'r swm o £2,500 a gymeradwywyd gan y Cyngor Tref ym Medi tuag at ffioedd Jess Steele, fel bo angen.***
- ii Rhoi £2,500 ychwanegol (cyfanswm o £5,000) tuag at gostau'r Ymddiriedolaeth i gael cefnogaeth broffesiynol i ddiweddarau ac i atgyfnerthu'r cais i HLF, yn barod i'w gyflwyno yn 2016.***

Fe nodwyd byddai hyn yn gadael balans o £15,000 tuag at y potensial o unrhyw gam i ddatblygu'r prosiect.

- ch** Fe nodwyd bod Bleddyn Evans a'r Cynghorydd Dilwyn Roberts, CBS Conwy, wedi gofyn am gael rhoi cyflwyniad i'r Cyngor Tref ar Strategaeth Swyddfeydd yn union cyn cyfarfod Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio sydd i'w gynnal dydd Mawrth 24<sup>ain</sup> Tachwedd (gohiriwyd o heno).

#### **201/15 Cofnodion:**

##### ***Penderfynwyd:***

- a. **Cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 7<sup>fed</sup> Medi 2015.**
- b. **Derbyn copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:**
  - i. ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 15<sup>fed</sup> Medi 2015.***
  - ii ***Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 30<sup>ain</sup> Medi 2015***
  - iii ***Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 6<sup>ed</sup> Hydref 2015.***

**202/15 Materion yn Codi o'r Cofnodion Hyn :**

- a. ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y dangosir yn y Cofnodion a ganlyn:***
  - i ***Cofnod 162/15(a) - Cyfarwyddiadau drafft i Gomisiwn Cymru dros Lywodraeth Leol a Ffiniau: Ymateb fel yr amlinellir yn y Cofnodion hynny.***
  - ii ***Cofnod 185/15(c) – Cymeradwyo taliadau'r Grantiau Bach fel y dangosir yn y Cofnodion hynny.***
- b. ***Penderfynwyd nodi penderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***
- c. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gwahoddiad i lansiad digwyddiad BID sydd i'w gynnal dydd Mawrth 27<sup>ain</sup> Hydref. Gofynnwyd i'r Aelodau cysylltu â'r Clerc os oeddynt yn dymuno fod yn bresennol. Cyflwynwyd y Rhybudd o Bleidlais hefyd, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd rhoi awdurdod dirprwyol i'r Pwyllgor Polisi a Chyllid i gymeradwyo ymateb y Cyngor i'r bleidlais.***

**203/15 Cynghorwyr - Safleoedd Gwag:**

- a. Cyflwynodd y Clerc diweddariad ag amserlen yr etholiad a'r enwebiadau ar gyfer Ward Eirias. Fe nodwyd bod yna tri ymgeisydd ac fe gynhelir yr etholiad dydd Iau 29<sup>ain</sup> Hydref.
- b. Fe nodwyd bod y safle gwag yn Ward Rhos wedi cael ei gyhoeddi yn dilyn ymddiswyddiad diweddar y Cynghorydd D. Porter. Cyflwynodd y Clerc copi o'r Rhybudd o Etholiad ac fe gynhelir yr etholiad dydd Iau 19<sup>eg</sup> Tachwedd os bydd yna ymgeiswyr

***Penderfynwyd derbyn a nodi'r sefyllfa ddiweddaraf am y safleoedd gwag ar y Cyngor a phenderfyniad y Pwyllgor Polisi a Chyllid i ddosbarthu cardiau pleidleisio ar gyfer y ddau (os bydd yna ornest).***

- c. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried llenwi'r safleoedd gwag canlynol i gynrychiolwyr ar fudiadau allanol a achoswyd trwy ymddiswyddiad y Cynghorydd Porter:
  - i Tîm Tref Bae Colwyn

*Penderfynwyd penodi Cynghorydd Jeff Pearson i lenwi'r safle gwag am gynrychiolydd ar Dîm y Dref (sy'n segur ar hyn o bryd oherwydd yr adolygiad o'r Prif Gynllun sydd ar ddod).*

- ii Grŵp Llywio Pier Fictoria Colwyn

*Penderfynwyd penodi Cynghorydd D. Griffiths i lenwi'r safle gwag am gynrychiolydd o'r Cyngor Tref ar Grŵp Llywio Pier Fictoria Colwyn*

- iii Pencampwr Treftadaeth (i gydlynu gyda Phrif Swyddog Arwain Menter Treftadaeth Treflun)

*Penderfynwyd gohirio'r safle gwag hwn tan gyfarfod nesaf y Cyngor i weld os oes gan un o'r ddau Gyngorwr newydd diddordeb mewn prosiectau yn ymwneud â threftadaeth leol.*

### **204/15 Dirprwyo Gwasanaethau:**

Ar gais Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (trwy'r Cynghorydd H. Meredith), gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pa wasanaethau'r Cyngor Sir efallai byddai'r Cyngor Tref yn dymuno ystyried i fod yn ddichonadwy i gymryd drosodd oddi wrth y Cyngor Sir yn y dyfodol rhagweladwy. Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, arweiniad a baratowyd ar gyfer cyngorau tref a phlwyfi yn Lloegr gan Gomisiwn dros Gymunedau Gwledig. Roedd hwn yn crynhoi'r manteision a'r risgiau posibl o ddirprwyo / datganoli gwasanaethau ynghyd â rhestr o rai o'r dyletswyddau y gellir eu hystyried i gael eu dirprwyo. Cafwyd trafodaeth am ba gyllid a fyddai efallai ar gael yn dilyn y dirprwyad a pha effaith fyddai hyn yn cael ar yr archebiant lleol pe bae mwy o wasanaethau yn cael eu dirprwyo i gyngorau tref a chymuned.

Fe nodwyd bod rhai Cyngorau Sir yng Ngogledd Cymru yn weithredol yn annog y dirprwyad o rai gwasanaethau ac yn ceisio atal rhai, gan adael i'w cyngorau tref a chymuned penderfynu a ydynt am gymryd y rhain ai peidio. Yn ffodus, nid oedd hyn yn digwydd hyd yn hyn yng Nghonwy ac fe gytunwyd ar brotocol gyda'r Cyngor Sir i sicrhau bod yna ddigon o rybudd ymlaen llaw, gwybodaeth ac amser i gyngorau tref a chymuned ystyried unrhyw newidiadau yn y cyflwyniad o wasanaethau lleol yn y blynyddoedd i ddod.

### **205/15 Noson Tân Gwyllt:**

Atgoffwyd yr Aelodau gan y Clerc bod angen deg o wirfoddolwyr i helpu gyda rheoli'r traffig / parcio ar noson y tân gwyllt. Gofynnwyd i'r Aelodau cysylltu â'r Clerc mor fuan ag sy'n bosibl i gadarnhau os oeddynt ar gael i helpu.

### **206/15 Cofeb Rhyfel Hen Golwyn:**

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, rhybudd o ddeiseb / ymgyrch i ychwanegu enw at Gofeb Rhyfel Hen Golwyn. Fe nodwyd bod hwn wedi cael ei anfon at yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am y gofeb (Cynghorydd B.

Cossey). Cyflwynodd y Clerc hefyd copi o'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel, er gwybodaeth.

***Penderfynwyd nodi'r ddeiseb a disgwyl am y rhybudd o benderfyniad Ymddiriedolwyr Cofeb Rhyfel Hen Golwyn***

**207/15 Busnes Cyfrinachol:**

***Yn unol â Deddf (Mynediad i Gyfarfodydd) Cyrff Cyhoeddus 1960 a Rheol Sefydlog rhif 68, fe BENDERFYNWYD byddai'n fuddiol, er budd diddordeb cyhoeddus, i wahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod dros dro oherwydd natur gyfrinachol yr hyn oedd i'w drafod, ac fe'u cyfarwyddwyd i adael.***

- a. Cyflwynodd y Clerc hysbysiad o ymddiswyddiad y Swyddog Cynorthwyol Gweinyddol rhan amser a gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo'r proses o recriwtio,

***Penderfynwyd:***

- i Hysbysebu'r swydd ar yr un telerau a hysbysiad 2013 (h.y. rhan amser, 15 awr yr wythnos ar raddfa GO2 Llywodraeth Leol).***
- ii Ychwanegu Wordpress i'r rhestr o sgiliau a fyddai o fantais, ac fel arall cymeradwyo'r swydd ddisgrifiad a'r fanyleb person i'w anfon i ymgeiswyr.***
- iii Dirprwyo'r trefniadau ar gyfer paratoi rhestr fer o ymgeiswyr, cyfweld a dewis, i'r Is-Bwyllgor Staffio.***

Daeth y cyfarfod i am 8.10 p.m.

..... Cadeirydd